# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cwm Gwendraeth**

**Mynydd Mawr Ltd - Cwm Gwendraeth**
**Heol Llan-non**
**Y Tymbl Uchaf**
**Llanelli**
**SA14 6BU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/10/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cwm Gwendraeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cwm Gwendraeth Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 59 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Mawrth 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Cwm Gwendraeth yn cael gofal a chymorth yn unol â'u dymuniadau. Cânt eu trin â pharch gan dîm o staff gofal sy'n ofalgar ac yn gweithio'n galed i gefnogi'r bobl i wneud pethau sydd o ddiddordeb iddynt, yn y gwasanaeth ac yn y gymuned.

Caiff y tîm o staff eu harwain yn dda, eu recriwtio'n briodol, ac maent yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl yn y gwasanaeth. Maent yn siarad yn gadarnhaol iawn am y cymorth y maent yn ei gael gan y tîm rheoli. Mae ganddynt wybodaeth fanwl iawn mewn cynlluniau personol unigol sy'n golygu y gallant gefnogi'r bobl yn unol â'u dymuniadau a'u dewisiadau. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a chaiff cyfarpar ei wasanaethu i sicrhau diogelwch y bobl.

Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer goruchwylio a llywodraethu'r gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd ac yn gweithredu ar yr awgrymiadau i wella'r gwasanaeth yn barhaus.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae gwybodaeth am yr hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth am hanes bywydau'r bobl a'u dewisiadau am eu hanghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn golygu y gall y staff gofal gefnogi'r bobl i gyflawni eu llesiant gan wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Gall y bobl rannu eu safbwyntiau am y gwasanaeth er mwyn helpu i lywio gwelliannau ac mae trefniadau eiriolaeth ar waith ar gyfer pobl sydd angen cymorth i wneud penderfyniadau am eu bywydau. Caiff dewisiadau bwyd eu parchu, ac mae'r staff arlwyo yn gwybod am ddewisiadau deiet a chânt eu rheoli'n dda. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn eu trin ag urddas a pharch. Gall y bobl gael eu gwasanaeth yn Gymraeg os byddant yn dymuno a chlywsom sgyrsiau Cymraeg yn digwydd yn ystod ein hymweliad.

Caiff y bobl eu cefnogi i reoli eu hiechyd a'u llesiant corfforol. Cânt eu hannog a'u cefnogi i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau ac i fod mor iach â phosibl. Mae cyfleoedd ar gael yn y gwasanaeth ac yn gymuned ehangach. Gwelsom y bobl yn cael eu hewinedd wedi'u paentio, yn gwneud posau, yn cymdeithasu ag eraill yn y caffi ac yn mwynhau ymweliadau gan aelodau o deuluoedd. Mae cerbydau â gyrwyr dynodedig yn galluogi'r staff gweithgareddau i gefnogi'r bobl i gynnal eu hobïau a'u diddordebau yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys mynd i ddigwyddiadau chwaraeon; sioeau ceir a gwasanaethau eglwys yn ogystal â chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae'r darparwr yn recriwtio i swydd prif gydlynydd gweithgareddau a fydd yn darparu strwythur ychwanegol ac yn helpu â'r gwaith o gynllunio a defnyddio staff gweithgareddau. Mae staff gofal yn weladwy yn yr unedau sy'n golygu y gall y bobl gael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant am ei gael. Caiff atgyfeiriadau eu gwneud yn gyflym at weithwyr iechyd proffesiynol ac mae'r bobl yn cael meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd. Mae'r bobl sy'n byw yng nghartref Cwm Gwendraeth yn cael budd o gael mynediad at dîm therapïau.

Mae systemau ar waith i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt. Mae'r arferion recriwtio cadarn yn sicrhau bod y bobl yn ddiogel i weithio gyda phobl agored i niwed.

Mae'r amgylchedd yn cefnogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw a gwelliannau ar waith. Mae'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac yn hawdd i'r bobl eu cyrraedd. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cwblhau ar gyfleusterau a chyfarpar i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio o hyd.

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofal gwybodus sy'n ymrwymedig i ddarparu'r gofal a'r cymorth cywir i'r unigolion. Ar y cyfan, mae'r lefelau staffio yn dda. Dywedodd y staff gofal y bydd y rheolwyr yn cynyddu niferoedd y staff pan fo angen. Mae hyn yn golygu eu bod yn gallu ymateb yn gyflym a darparu'r cymorth cywir pan fydd ei angen ar y bobl. Maent yn gweithio'n galed i gefnogi'r bobl ag anghenion cymhleth. Roedd y rhan fwyaf o enghreifftiau o ryngweithio a welsom yn ystyrlon a parchus. Roedd y staff gofal yn siarad â'r bobl mewn modd caredig a chysurlon, gan eu helpu i reoli eu pryderon. Fodd bynnag, roedd rhai yn llai effeithiol, heb ymgysylltu rhyw lawer os o gwbl pan roedd angen sicrwydd ar y bobl. Gwnaethom godi hyn gyda'r tîm rheoli a roddodd sicrwydd i ni y byddai'n ymdrin â'r mater. Os bydd angen, caiff y bobl gymorth gyda'u prydau bwyd. Gwelsom y staff gofal yn cymryd eu hamser ac yn sgwrsio â'r bobl gan sicrhau eu bod yn cael y profiad gorau posibl. Roedd y bobl yn canmol y bwyd a dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi am fod ei ddewisiadau deiet yn cael eu parchu bob amser.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth yn unol â'u cynlluniau personol. Mae gwybodaeth fanwl ar gael i staff gofal gan gynnwys anghenion iechyd, cynlluniau ymddygiadol a meddyginiaeth yn ogystal â dewisiadau personol ac arferion. Mae hyn yn golygu eu bod yn gwybod sut mae'r bobl am gael eu cefnogi. Caiff unrhyw risgiau a nodir eu dogfennu'n glir gyda manylion am sut y dylent gael eu rheoli i hyrwyddo annibyniaeth a chefnogi llesiant. Mae adolygiadau o gynlluniau personol yn digwydd yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol. Mae'r aelodau teulu y gwnaethom siarad â nhw, a'r dogfennau a welsom yn cadarnhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal.

Caiff y bobl eu cefnogi i aros mor iach â phosibl. Mae'r staff gofal yn ymateb yn gyflym pan fyddant yn gweld newid yn anghenion iechyd y bobl. Maent yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gadarnhaodd fod y staff gofal yn dilyn eu cyfarwyddiadau'n dda. Mae gan y darparwr ei dîm ei hun o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys therapyddion lleferydd ac iaith a therapyddion galwedigaethol. Mae hyn yn golygu y gellir cael mewnbwn yn gyflym i gefnogi anghenion newidiol y bobl. Mae systemau ar waith i gefnogi'r bobl i gymryd eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd. Mae polisïau mewn perthynas â meddyginiaeth ar gael i dywys y staff gofal ac mae archwiliadau rheolaidd yn sicrhau y gellir nodi unrhyw faterion ac ymdrin â nhw yn gyflym.

Caiff y bobl eu hamddiffyn cymaint â phosibl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae ganddynt bolisïau gan gynnwys chwythu'r chwiban ar waith i'w tywys drwy eu hymarfer. Mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw

bryderon a allai fod ganddynt am lesiant y bobl ond nid oedd pob un ohonynt yn gyfarwydd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Mae'r rheolwyr yn gweithio i wella ymhellach y diwylliant o amgylch y broses o roi gwybod am ddigwyddiadau i sicrhau bod pawb yn hyderus i wneud hyn. Mae gweithdai a hyfforddiant pellach yn fater parhaus.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae’r gwasanaeth yn gweithredu dros bum uned unigol gyda lolfa / ystafell fwyta lle gall y bobl gymdeithasu ac ardaloedd tawelach i'r bobl sy'n mwynhau treulio amser ar eu pen eu hunain. Mae'r coridorau ym mhob rhan o'r gwasanaeth yn llydan i'r bobl allu symud o amgylch yn hawdd. Mae rhai coridorau wedi eu haddurno'n ddeniadol. Byddai'n beth da i ardaloedd eraill, yn benodol y llefydd lle mae'r bobl sydd â dementia yn byw, gynnwys eitemau i'w helpu i'w cadw'n brysur. Mae lifft er mwyn cyrraedd pob llawr. Mae gan yr ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi gyfarpar i gefnogi'r bobl sydd ag amhariad ar eu symudedd. Caiff hyn ei gynnal a'i gadw'n rheolaidd, ac mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar i helpu i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u haddurno ac wedi'u personoli ag eitemau sy'n bwysig iddynt.

Mae gan bob uned ardal awyr agored hygyrch a diogel i bobl ei defnyddio. Mae gwelyau blodau uchel yn gwneud plannu blodau a llysiau yn weithgaredd hygyrch i'r bobl. Mae rhai ystafelloedd gwely yn wynebu'r gerddi, mae rhai gerddi/ potiau planhigion wedi gordyfu a byddai'n beth da iddynt gael eu tacluso i gynnig golygfeydd mwy dymunol i'r bobl. Mae canolfan gymdeithasol ar y tir sy'n cynnwys pwll hydrotherapi, caffi/bar ac ystafell adloniant y mae'r bobl yn eu defnyddio. Mae'r ardal caffi yn y gwasanaeth yn boblogaidd iawn. Roedd amgylchedd hyfryd ar ddiwrnod ein hymweliad a dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau mynd yno i gael diod ac i gymdeithasu. Mae hon hefyd yn ardal lle gall y bobl gwrdd â'u teulu a'u ffrindiau i fwynhau amser gwerthfawr gyda'i gilydd.

Mae'r gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Dywedodd staff domestig wrthym eu bod yn cael hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl. Caiff ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, ac mae cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hawdd. Mae llawr newydd wedi cael ei archebu lle'r oedd arogleuon drwg mewn un uned. Cawsom sicrwydd y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael â'r materion a ddaeth i'r amlwg ystod ein hymweliad. Mae systemau ar waith i reoli'r broses golchi dillad. Fodd bynnag, cawsom wybod bod problem gan nad oes rhai o'r dillad yn cael eu dychwelyd i'r bobl gywir. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwyr sy'n ymwybodol o'r problemau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mater.

Mae gan y darparwr systemau iechyd a diogelwch ar waith i amddiffyn y bobl. Cynhelir gwiriadau rheolaidd o gyfarpar a chyfleusterau, gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân, fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae archwiliadau amgylcheddol rheolaidd yn sicrhau y caiff gwaith ei nodi a'i gwblhau'n brydlon.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm rheoli yng nghartref Cwm Gwendraeth yn gweithio'n galed i feithrin diwylliant lle mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi ac yn hyderus yn eu rôl. Mae mwy o hyfforddiant, arsylwi a gweithdai wedi cael eu cyflwyno i wella'r diwylliant yn y gwasanaeth. Yn ddieithriad, gwnaeth y staff gofal ganmol y gefnogaeth a gânt gan y tîm rheoli yn ogystal ag aelodau eraill o'r tîm. Gwnaethant ddweud bod rhywun y gallant droi ato bob amser i gael cyngor. Mae'r ddau reolwr yn ymrwymedig i roi cymorth i'r tîm o staff ac i wella bywydau'r bobl sy'n byw yng nghartref Cwm Gwendraeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl, eu teulu a phob aelod o staff roi eu barn ar ansawdd y gwasanaeth mewn nifer o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys trafodaethau â'r Unigolyn Cyfrifol yn ystod ei ymweliadau, cwblhau arolygon, mae cardiau sylwadau ar gael yn yr ardaloedd derbynfa a thrafodaethau dyddiol â'r staff gofal sy'n eu cefnogi. Caiff ansawdd y gwasanaeth ei adolygu'n rheolaidd, ac mae'r cofnodion yn dangos eu bod wedi mynd i'r afael ag unrhyw welliannau a nodwyd yn gyflym.

Mae gwybodaeth am yr hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan y gwasanaeth ar gael yn y datganiad o ddiben ac yng nghanllaw'r gwasanaeth. Gellir darparu'r dogfennau hyn yn Gymraeg os bydd y bobl yn dymuno hynny. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i ategu arferion da ac i dywys y staff gofal.

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofal sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi yn eu rolau. Yn ddieithriad, dywedodd y staff gofal fod y cyfleoedd hyfforddiant yn dda iawn. Mae'r cofnodion a welwyd yn cadarnhau hyn. Rhoddir cymorth i'r staff gofal drwy gyfarfodydd staff yn ogystal â chyfarfodydd cyfrinachol un i un rheolaidd, i fyfyrio ar eu hymarfer i sicrhau bod eu cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal. Mae'r cofnodion yn dangos bod arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal gyda staff gofal i nodi unrhyw feysydd eraill o hyfforddiant i gefnogi eu datblygiad. Dywedodd y staff gofal wrthym fod y rheolwyr yn cydnabod ac yn cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith sy'n cael ei werthfawrogi.

Mae'r arferion recriwtio yn helpu i gadw'r bobl mor ddiogel â phosibl. Roedd y cofnodion a welsom yn cael eu cadw'n gyfrinachol. Maent yn cynnwys gwiriadau cyn cyflogi, gan gynnwys cofnodion gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Nid yw'r bobl yn dechrau gweithio hyd nes y bydd yr holl wiriadau gofynnol wedi'u cynnal. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael eu sefydlu'n dda yn y gwasanaeth a chânt eu cefnogi i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 28/11/2024